Dŵr Cymru
Welsh Water

# Cynnydd ym mhrisiau cyfanwerthu 2025-26

# Gwybodaeth i Adwerthwyr

dwrcymru.com

Rheoli Fersiynau

| Rhif y Fersiwn | Dyddiad Cyhoeddi | Addasiadau i'r cyhoeddiad blaenorol |
| --- | --- | --- |
| V1.0 | 10 Mawrth 2025 | Cyhoeddiad cyntaf |

## Taliadau Cyfanwerthu Dŵr Cymru 2025/26

Mae cwsmeriaid yng Nghymru'n gymwys am adwerthu cystadleuol os ydyn nhw'n defnyddio mwy na 50 megalitr (Ml) o ddŵr y flwyddyn.

Rydyn ni'n cynnig set o dariffau ar gyfer y cwsmeriaid hyn, sef ein tariffau Diwydiannol, yn seiliedig ar lefel eu defnydd.

Dyma ein tariffau ar gyfer 2025/26:

| Band Tariff Diwydiannol | Defnydd mewn Ml y flwyddyn | Tâl Sefydlog Blynyddol £ | Tâl Cyfeintiol £ fesul m3 |
|---|---|---|---|
| 1 | 50-99 | 25,858.90 | 1.2576 |
| 2 | 100-249 | 31,515.17 | 1.2010 |
| 3 | 250-499 | 47,563.87 | 1.1368 |
| 4 | 500-999 | 96,193.05 | 1.0396 |
| 5 | >1000 | 184,851.10 | 0.9509 |

**Cydrannau prisiau 2025/26**

Mae ein tariffau ar gyfer 2025/26 yn codi 25% o gymharu â 2024/25.

Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r penderfyniad ar brisiau PR24 a gyhoeddodd Ofwat ym mis Rhagfyr 2024, a gynyddodd lefel y refeniw y dylem ei chasglu er mwyn ariannu gwelliannau yn ein darpariaeth gwasanaethau dŵr.

Yn ogystal, cynyddodd ein refeniw yn gyson â chwyddiant CPIH mis Rhagfyr. Disgynnodd lefel y dirwyon ar sail perfformiad a nifer y cwsmeriaid dibreswyl a wasanaethir hefyd, sy'n cynyddu'r tariffau. Fodd bynnag, mae ailddyrannu refeniw i adlewyrchu llai o ddefnydd gan gwsmeriaid dibreswyl wedi sbarduno gostyngiad yn y tariffau a gyfrifwyd.

Dyma grynodeb o'r prif ffactorau sy'n gyrru'r newid mewn tariffau ar gyfer 2025/26:

| Ffactor | Effaith ar filiau cyfanwerthu NHH 2025/26 |
|---|---|
| Newid yn y lwfans refeniw yn sgil Penderfyniad Terfynol PR24 | +26% |
| Chwyddiant | +4% |
| Refeniw o dan neu dros ben lefel yr adferiad o'r flwyddyn flaenorol | 0% |
| Effaith newid yn y Cymelldaliadau Cyflawni Deilliannau | +2% |
| Ail-gydbwyso taliadau rhwng cwsmeriaid preswyl a dibreswyl, yn seiliedig ar dueddiadau defnydd | -9% |
| Newid yn nifer y cwsmeriaid | +2% |
| Newid mewn biliau 24/25 i 25/26 | +25% |

**Meysydd allweddol o wariant**

Mae Cynllun Busnes Dŵr Cymru'n gam mawr i fyny mewn buddsoddiad dros y 5 mlynedd nesaf, sy'n adlewyrchu'r gwelliannau y mae ein cwsmeriaid am eu gweld yn ogystal ag amcanion pwysig ein busnes. Mae Cynllun Busnes 2025-2030 yn amlinellu ein hymrwymiad i gyflawni buddsoddiad uwch nag erioed, a

fydd yn caniatáu i ni wneud gwelliannau sylweddol i'r gwasanaethau a ddarparwn ar gyfer ein 3 miliwn o gwsmeriaid ar draws Cymru a rhannau o Loegr.

Bydd y buddsoddiad yma'n ariannu gwaith i leihau llygredd, uwchraddio ac adeiladu asedau newydd hanfodol, lleihau gollyngiadau, a gwella ansawdd dŵr. Ymhlith y cynlluniau a fydd yn cychwyn yn 2025/26 mae gwella ansawdd afonydd yng Nghorwen, Llan-ffwyst, Treletert a Llanbed, disodli 75km o brif bibellau, yn y gorllewin yn bennaf, a gwaith i uwchraddio'r argaeau yng Nghwm Celyn, Wysg, Tŵr Cwmwernderi a'r Graig Goch.

Mae manylion ein Cynllun Busnes a'n hymrwymiadau i roi ein cwsmeriaid yn gyntaf ar ein gwefan benodol yn <https://www.dwrcymruplans.com/>

**Prisiau dros y 4 blynedd nesaf**

Ni allwn ddarparu manylion terfynol y newidiadau mewn prisiau ar gyfer gweddill blynyddoedd cyfnod yr AMP am y bydd sawl ffactor na wyddom amdanynt eto'n effeithio ar y rhain, gan gynnwys chwyddiant, cymelldaliadau perfformiad a newidiadau yn y sylfaen o gwsmeriaid. I roi syniad o gyfeiriad tebygol biliau'r dyfodol, mae'r tabl isod yn dangos y symudiadau a ganiateir mewn refeniw cyfanwerthu dŵr, heb gynnwys chwyddiant, o fodel ariannol Ofwat ar gyfer PR24:

| | **2026/27** | **2027/28** | **2028-29** | **2029/30** |
|---|---|---|---|---|
| Symudiad yn y refeniw dŵr cyfanwerthu a ganiateir | 3% | 7% | 2% | 3% |

**Effeithlonrwydd Dŵr**

Gall cwsmeriaid geisio lleihau eu biliau dŵr trwy roi mesurau effeithlonrwydd dŵr ar waith i leihau defnydd ar eu safleoedd. Gall ein Canolfan Gwasanaethau Adwerthu ddarparu cyngor effeithlonrwydd ar gyfer Adwerthwyr a'u cwsmeriaid, cysylltwch at wholesaleservicecentre@dwrcymru.com am fanylion.